# RHAGLEN DDIWYLLIANNOL
# CYMRU JAPAN 2025

*Cymru. Japan. Dwy wlad sy'n gofalu am y gorffennol. Sy'n byw'n dda yn y presennol. Ac sy'n cyfrannu at greu gwell dyfodol – i bobl ac i'r blaned. Cyfeillgarwch sydd wedi'i feithrin dros ganrifoedd, ond â'i lygad ar y dyfodol. (Blwyddyn Cymru a Japan 2025, Llywodraeth Cymru)*



Credit: Jonathan Edwards


wales arts international celfyddydau rhyngwladol cymru | Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales | BRITISH COUNCIL | ウェールズ & 日本 Cymru a Japan Wales and Japan

# RHAGLEN DDIWYLLIANNOL
# CYMRU JAPAN 2025

Pont o gyfeillgarwch creadigol a diwylliannol rhwng Cymru a Japan er lles cenedlaethau'r dyfodol

Yn hydref 2025, cynhelir arddangosfa heb ei thebyg o gydweithio diwylliannol a chreadigol rhwng Cymru a Japan, a honno'n rhoi sylw i 21 o brosiectau creadigol. Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, British Council a Llywodraeth Cymru, sy'n arwain y gwaith hwn. Bydd ffilmiau, cerddoriaeth, llenyddiaeth, y celfyddydau gweledol, technoleg, iaith, dawns a theatr i gyd yn ymddangos fel rhan o Raglen Ddiwylliannol Cymru Japan. Drwy'r cyfan, bydd pwyslais penodol ar lesiant diwylliannol a chynaliadwyedd er mwyn nodi deng mlynedd ers pasio cyfraith arloesol Cymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Ein nod yw meithrin perthynas ddiwylliannol ddofn a chysylltiadau yn yr economi greadigol rhwng Cymru a Japan, a chychwyn partneriaethau newydd sy'n gwella gwybodaeth am ddiwylliant a gwerthoedd Cymru yn Japan, ac yn cynyddu'r ymwybyddiaeth o Japan yng Nghymru. Arddangosfa yw hon sy'n cyflwyno ymateb creadigol Cymru i faterion byd-eang, gan roi cyfle i bartneriaid edrych ar gyfleoedd cynaliadwy i gydweithio a chyd-fuddsoddi yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig yn y dyfodol.




Credit: Jorge Lizalde

wales arts international
celfyddydau rhyngwladol cymru
Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
BRITISH COUNCIL
ウェールズ & 日本
Cymru a Japan
Wales and Japan

# RHAGLEN DDIWYLLIANNOL CYMRU JAPAN 2025

**Mae'r arddangosfa greadigol yn hydref 2025 yn cynnwys:**

## HIJINX: MEET FRED YN JAPAN

With SLOW LABEL a'r Bird Theatre Festival
Tokyo • Tottori • Osaka | 25 Medi - 08 Hydref 2025
www.hijinx.org.uk | insta: @hijinxtheatre | fb: @hijinxtheatre
www.slowlabel.info/ |@slow_label | www.birdtheatre.org/ | @birdtheatre_festival

Bydd cynhyrchiad Hijinx Theatre, Meet Fred, sydd wedi cael clod rhyngwladol, yn cyrraedd Japan am y tro cyntaf. Mae Hijinx Theatre yn gwmni sydd wedi ennill gwobrau am ei waith gyda phobl sydd ag anableddau dysgu a phobl sydd heb anableddau dysgu. Pyped Bunraku yw Fred, gyda thraddodiadau pypedau Japan yn ysbrydoliaeth uniongyrchol wrth greu'r cymeriad. Bydd ei daith yn cael ei dilyn ar y cyfryngau cymdeithasol wrth i Fred a'r cast gydweithio â SLOW LABEL yn Tokyo a'r Bird Theatre Festival, Tottori.

## CIAN CIARÁN: AILDDEHONGLI CHWEDL 'RHYS A MEINIR'

Y perfformiad cyntaf erioed yn teamLab Borderless Tokyo • sgwrs ym Mhafiliwn y Deyrnas Unedig yn EXPO Osaka Kensai
Gyda teamLab & Yamaha
Tokyo • Osaka | 11 – 23 Hydref 2025
www.cianciaran.com | fb: @c.ciaran

Dyma ailddehongliad arloesol o'r chwedl Gymreig gan un o aelodau'r Super Furry Animals, gyda dau biano Yamaha yn chwarae ar eu pennau'u hunain, a'r rheini wedi'u syncroneiddio i berfformio fersiwn i bedair llaw o'r sgôr cerddorfaol gwreiddiol. Bydd hyn yn digwydd yn teamLab Borderless TOKYO, Azabudai Hills.

## GWENNO: UTOPIA YN JAPAN

Tokyo | 12-23 Hydref 2025
www.gwenno.info | insta: @gwennosaunders | fb: @gwennomusic

Yn Japan, bydd Gwenno, y gantores, y gyfansoddwraig, y cynhyrchydd electronig a'r artist sain o Gaerdydd, yn lansio Utopia, ei halbwm tairieithog newydd (Cymraeg, Cernyweg a Saesneg). Bydd hyn ar ffurf lansiadau mewn siopau bach a sesiynau radio.

wales arts international
celfyddydau rhyngwladol cymru
Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
BRITISH COUNCIL
ウェールズ & 日本
Cymru a Japan
Wales and Japan



Credit: Clare Marie Bailey

# RHAGLEN DDIWYLLIANNOL CYMRU JAPAN 2025

## KELTRONIKA - CYDBLETHIAD CLYWELEDOL CELTAIDD

Tokyo • 16 Hydref 2025

### MARK JAMES WORKS

www.markjamesworks.com | insta: @markjamesworks

Cyfarwyddwr celf ac artist annibynnol sy'n pontio disgyblaethau yw Mark James. Gwerthwyd yr holl docynnau i Culture Clash, ei arddangosfa gyntaf yn Japan fel artist unigol, yn 2022. Bydd Mark yn dychwelyd i Japan i gyflwyno arddangosfa newydd yn Keltronica – cydblethiad clyweledol Celtaidd sy'n rhoi llwyfan i bedwar o artistiaid o Gymru: Gwenno, Cian Ciarán, Mark James a Dean Lligwy. Bydd y digwyddiad cwbl arbennig hwn, sy'n cyfuno genres, yn cael ei gynnal yn Wall&Wall Aoyama, Tokyo, ac yn dangos ei weithiau celf presennol a newydd, 'Anomalies', 'Mountain People' a 'Culture Clash'.

## ONLY BOYS ALOUD: TAITH Y CÔR O AMGYLCH JAPAN

Oita • Kitakyushu • Hiroshima • Tokyo | 08-15 Hydref 2025

www.aloud.cymru | insta: @aloud.cymru | fb: @thealoudcharity

Bydd Aloud, y sefydliad sy'n gweithio ledled Cymru i rymuso pobl ifanc drwy gân, yn mynd â dwsin o aelodau côr Only Boys Aloud i Japan. Er eu bod wedi cydweithio ag ysgolion yn Oita a Kitakyushu dros y chwe blynedd ddiwethaf, dyma fydd y tro cyntaf i bobl ifanc o'r ddwy genedl gwrdd wyneb yn wyneb. I lawer o'r bechgyn, dyma hefyd fydd eu cyfle cyntaf i deithio yn rhyngwladol.

## THEATR CYMRU/CWMNI DAWNS CENEDLAETHOL CYMRU: DAWNS Y CEIRW A GWEITHDY TECHNOLEG GREADIGOL AC IAITH

Gyda Gŵyl Celfyddydau Stryd Setagaya a Pharc ac Amgueddfa Genedlaethol Ainu Upopoy
Tokyo • Shiraoi, Hokkaido | 15-23 Hydref 2025

www.theatr.cymru • ndcwales.co.uk | insta: @theatr.cymru • @ndcwales | fb: @TheatrGenedlaetholCymru • @NDCWales

A hwnnw wedi'i greu a'i berfformio gan Casi Wyn (cerddor a Bardd Plant Cymru 2022-23), bydd y cyd-gynhyrchiad hudolus hwn gan Theatr Cymru a Chwmni Dawns Cenedlaethol Cymru yn teithio i Japan am y tro cyntaf. Yn ogystal â pherfformio i gynulleidfaoedd ifanc yng Ngŵyl Celfyddydau Stryd Setagaya, Tokyo, bydd y cwmni'n cydweithio â Pharc ac Amgueddfa Genedlaethol Ainu UPOPOY yn Hokkaido. Yno, y bwriad yw cynnal gweithdai creadigol sy'n defnyddio technoleg Sibrwd, gan edrych ar sut gallai'r dechnoleg hon gael ei defnyddio er budd ieithoedd brodorol eraill.



Credit: Mark James Works

# RHAGLEN DDIWYLLIANNOL CYMRU JAPAN 2025

## CYMRU YN JAPAN – IAITH A FFILM

Gyda Cinema Amigo
Tokyo • Zushi | 23-30Hydref 2025
insta: @grifflynch | www.cinema-amigo.com/ | @cinemaamigo

Wedi'u curadu gan Griff Lynch, y gwneuthurwr ffilmiau a'r cerddor, bydd chwech o ffilmiau Cymraeg yn cael eu dangos yn Tokyo a Zushi ar y cyd â Chymdeithas Dewi Sant Japan, Cinema Amigo a Tollywood Shimokitazawa. Mae'r ffilm gyflwyniadol fer yn dilyn siwrneiau Takeshi Koike a Yuko Nakauchi, dau siaradwr Cymraeg o Japan a wirionodd ar yr iaith drwy ymwneud â chelfyddyd, barddoniaeth a ffilmiau o Gymru.

## CELFYDDYDAU RHYNGWLADOL CYMRU / ORCHARD MEDIA AC S4C: PETHAU BYCHAIN

Tokyo | 15 Hydref
Ar-lein, platfform byd-eang s4c
@WAICymruWales | @s4c | #PethauBychain 2025 | Arts Council of Wales

Bydd S4C yn rhyddhau ffilm Pethau Bychain (Orchard Media) yn fyd-eang. Dyma gyflwyniad amlieithog i ddiwylliant llesiant Cymru, wedi'i gomisiynu gan Celfyddydau Rhyngwladol Cymru i ddathlu dengmlwyddiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Gyda Junko Mori, artist Japaneaidd sy'n byw yng Nghymru, a saith o artistiaid eraill. Y bardd Iestyn Tyne sy'n cyflwyno. Mae modd gwylio'n rhad ac am ddim.

## PARTHIAN BOOKS: GWREIDDIAU I'W TRAWSBLANNU: EDRYCH AR GYSYLLTIADAU DIWYLLIANNOL DRWY LENYDDIAETH, HANES, STRAEON A FFOTOGRAFFIAETH

Gyda Chymdeithas Dewi Sant Japan
Tokyo • Osaka | Hydref 2025
www.parthianbooks.com | insta: @parthian_books | fb: @parthianbooks |
www.cdsjapan.jimdofree.com/ | @stdavidsjapan

Bydd y rhaglen hon yn cynnwys cyfnod preswyl a chyfleoedd cyfnewid diwylliannol yn Japan i bedwar o awduron ac artistiaid Parthian: Susan Karen Burton, Eluned Gramich, Catrin Menai ac Elin Gruffydd. Bwriedir cydweithio â Chymdeithas Dewi Sant Japan 日本ウェールズ協会 i gynnal digwyddiadau cyhoeddus yn Osaka a Tokyo.

wales arts international
celfyddydau rhyngwladol cymru
Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
BRITISH COUNCIL
ウェールズ & 日本
Cymru a Japan
Wales and Japan



Credit: Theatr Cymru/National Dance Company Wales

# RHAGLEN DDIWYLLIANNOL CYMRU JAPAN 2025

## LLENYDDIAETH AR DRAWS FFINIAU A CHYFNEWIDFA LÊN CYMRU: CHWEDL Y DDWY DDRAIG – CYSYLLTU CYMRU A JAPAN DRWY STRAEON I BLANT

**Gyda'r Sefydliad Llenyddiaeth Plant Rhyngwladol a Bwrdd Llyfrau Pobl Ifanc Japan**
**Osaka • Kobe • Kyoto | 23 Hydref – 04 Tachwedd**
@literatureacrossfrontiers | @jbby_kodomonohom | @iiclo_official

Bydd Llenyddiaeth ar Draws Ffiniau a Chyfnewidfa Lên Cymru yn creu partneriaeth â dau sefydliad llenyddiaeth o bwys yn Japan, sef y Sefydliad Llenyddiaeth Plant Rhyngwladol (IICLO) yn Osaka, a Bwrdd Llyfrau Pobl Ifanc Japan (JBBY). Mae'r prosiect hybrid hwn yn dod â phobl sy'n creu llyfrau i blant a chyhoeddwyr o Gymru a Japan ynghyd i gydweithio a chreu cysylltiadau newydd. ydd yr awdur llyfrau lluniau, Yoshifumi Hasegawa, a'r darlunwyr o Gymru, Valériane Leblond a Liz Fenwick, yn cymryd rhan yn y prosiect.

## MARI WIRTH X GREEN BIRD HIMEJI

**Himeji • 14-16 Tachwedd 2025**
www.mariwirthpapercutart.com | insta @maritreeleaf
www.greenbird.jp/team/himeji/ | insta @greenbird_official

Bydd y darlunydd a'r artist toriadau papur, Mari Wirth, yn dychwelyd i Himeji, tref ei magwraeth, i gydweithio ar brosiect sy'n hybu cynaliadwyedd a chymdeithas werdd. Bydd yn gwneud hyn gyda Green Bird Himeji, elusen sy'n fawr ei pharch yn fyd-eang, a honno'n gweithio'n wirfoddol ledled Japan i gael gwared ar sbwriel o'r strydoedd. Yr egwyddor yw bod "glanhau'r ddinas yn cyfoethogi'r galon".

## RE-LIVE: COMIC DEMENTIA

**Gyda Chymdeithas Lles Cymdeithasol Kenjin-kai**
**Hydref – Rhagfyr 2025**
www.re-live.org.uk | insta: @relive_arts | fb: @ReLiveArts

Bydd Re-Live o Gymru a Sefydliad Lles Cymdeithasol Kenjin-kai o Japan yn dod ynghyd i gydweithio'n greadigol am y tro cyntaf, a hynny er mwyn llunio comic dementia dwyieithog yng nghwmni pobl sy'n byw gyda dementia, eu teuluoedd, a gweithwyr gofal o'r naill wlad a'r llall. Comic fydd hwn a gaiff ei gyhoeddi yn Gymraeg, Japaneg a Saesneg, a bydd yn cael ei ddosbarthu i siopau, gwasanaethau gofal dementia a gofodau diwylliannol, yn ogystal ag i lunwyr polisïau.

wales arts international
celfyddydau rhyngwladol cymru
Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
BRITISH COUNCIL
ウェールズ & 日本
Cymru a Japan
Wales and Japan



Credit: Stephen Meredith

# RHAGLEN DDIWYLLIANNOL CYMRU JAPAN 2025

## PLAS GLYN Y WEDDW X JUNKO MORI A JOHN EGAN

**Rhaglen Breswyl Cymru Japan Coed/Coexist**
**Gyda Chymdeithas Diwylliant Pren Mt Fuji**
**Oishi, Fujikawaguchiko-machi • Llanbedrog**
**Tachwedd – Rhagfyr 2025**

www.oriel.org.uk | www.junkomori.com | insta: @plasglynyweddw | @junkomori44 | @making_little
fb: @orielplasglyn.yweddw | @JunkoMoriMetalwork
www.mtfuji-wcs.org/ | insta @mtfujiwcs

Prosiect yw Coed/Coexist a gychwynnwyd gan Junko Mori a John Egan, yr artistiaid o Ben Llŷn, mewn partneriaeth ag oriel Plas Glyn-y-Weddw. Hanfod y prosiect yw tynnu ein sylw at goed a choetiroedd, ceisio meithrin cysylltiadau ehangach, dangos ein dyheadau a'n dibyniaeth ar yr ecosystemau hyn, a thrwy'r cyfan, creu cysylltiadau rhwng cymunedau, creadigrwydd a gofalu am yr amgylchedd. Bydd y prosiect yn cynnwys cyfnod preswyl mis o hyd i Rae Morris, yr artist o Gymru sy'n gweithio gyda choed, yng Nghymdeithas Diwylliant Pren Mt Fuji yn Japan, a chyfnod preswyl yn gyfnewid i artist o Japan ym Mhen Llŷn.

## GŴYL ANIMEIDDIO CAERDYDD X GŴYL ANIMEIDDIO RYNGWLADOL NEW CHITOSE

**Hokkaido • 21-25 Tachwedd 2025 | Ar-lein • 01-08 Rhagfyr 2025**

www.cardiffanimation.com | insta: @cardiffanimfest | fb: @CardiffAnimationFestival
www.airport-anifes.jp | @airportanifes

Bydd y bartneriaeth hirhoedlog rhwng Amgueddfa Cymru ac OPAM (Amgueddfa Gelf Llywyddiaeth Oita – Oita Prefecture Art Museum) yn camu i gyfnod newydd wrth ddatblygu preswylfa artistiaid a honno'n canolbwyntio ar fambŵ a thecstiliau cynaliadwy. Bydd Llio James, yr artist tecstiliau o Gymru, yn teithio i Oita i gydweithio â chrefftwyr bambŵ, i hwyluso gweithdai, ac i arddangos ei gwaith yn OPAM. Rhagwelir y bydd preswylfa ddwyffordd yn cael ei datblygu, gan weld crefftwr bambŵ yn ymweld â Chymru.



Credit: Junko Mori/John Egan

wales arts international
celfyddydau rhyngwladol cymru
Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
BRITISH COUNCIL
ウェールズ & 日本
Cymru a Japan
Wales and Japan

# RHAGLEN DDIWYLLIANNOL CYMRU JAPAN 2025

## RHODRI DAVIES: TAITH DRWY JAPAN

Tokyo • Kyoto • Oita • Osaka • Hokkaido | 14-24 Rhagfyr 2025

www.rhodridavies.com | insta: @rhodrijd | fb: @rhodritelyn

Bydd taith Rhodri Davies, y telynor arbrofol, mawr ei barch, yn cynnwys pum cyngerdd ac un sesiwn recordio yn Japan. Mae Davies wedi cydweithio â cherddorion o Japan sy'n gweithio ym meysydd cerddoriaeth fyrfyfyr ac arbrofol ers dros ddau ddegawd. Yn eu plith mae Fumi Endo, Kanon Aonami, Suzueri a Tetuzi Akiyama.

## PYS MELYN: TAITH DRWY JAPAN

Rhagfyr 2025

www.linktr.ee/pysmelyn | insta: @pysmelyn | fb: @pysmelyn

Hon fydd taith gyntaf Pys Melyn yn Japan, a hwythau'n cyflwyno eu pysho-pop a'u cerddoriaeth indie i gynulleidfaoedd yn Tokyo ac Osaka.

## CYFNEWIDFA ARTISTIAID AMGUEDDFA CYMRU AC AMGUEDDFA GELF LLYWYDDIAETH OITA

Gydag OPAM

Oita | 16-30 Tachwedd 2025

www.amgueddfa.cymru / www.museum.wales | insta: @museumwales | fb: @amgueddfacymru (OPAM)

Bydd y bartneriaeth hirhoedlog rhwng Amgueddfa Cymru ac OPAM (Amgueddfa Gelf Llywyddiaeth Oita – Oita Prefecture Art Museum) yn camu i gyfnod newydd wrth ddatblygu cyfnewidfa artistiaid a honno'n canolbwyntio ar fambŵ a thecstiliau cynaliadwy. Bydd artist bambŵ o Oita yn treulio cyfnod preswyl yn Amgueddfa Wlân Cymru, tra bydd Llio James, yr artist tecstiliau, yn teithio i Oita i gydweithio â chrefftwyr bambŵ, i hwyluso gweithdai, ac i arddangos ei gwaith yn OPAM.

wales arts international
celfyddydau rhyngwladol cymru
Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
BRITISH COUNCIL
ウェールズ & 日本
Cymru a Japan
Wales and Japan



Credit: Kuba Ryniewicz

# RHAGLEN DDIWYLLIANNOL CYMRU JAPAN 2025

## DYMA BROSIECTAU SYDD EISOES WEDI CAEL EU CYNNAL:

### FREYA DOOLEY A CLARE CHARLES: ARTISTIAID PRESWYL, AIRK KOBE

Kobe • Osaka | 01-15 Medi 2025
Insta: @freya_dooley | @clare_charles_
www.airk.haaymm.org | insta: @airk.kobe

Gan ddatblygu ar rwydweithiau a sefydlwyd a gwaith ymchwil a wnaed yn ystod cyfnod preswyl gyda Beppu Projects, Oita, yn 2020, teithiodd yr artistiaid o Gymru, Freya Dooley a Clare Charles, i Kobe. Yno, treuliodd y ddau gyfnod preswyl arbennig dros bythefnos yn AiRK Kobe, a hynny er mwyn datblygu gweithiau sain newydd a darllediad radio ar-lein gyda phwyslais ar arferion gwrando cymdeithasol a thorfol.

### HEATHER PARNELL A SUE HUNT, CWRDD, CREU CYSYLLTU – Y CELFYDDYDAU AC IECHYD

Gydag Art Spot Korin, Prifysgol Kindai ac Ysbyty Mimihara
Osaka • Kyoto | 03 – 31 Awst 2025
www.heatherparnell.wordpress.com | suehunt.co.uk | insta: @heatherwinterparnell
@sue_hunt_paintings | @masa_kawanaka | @askyori

Treuliodd Heather Parnell, yr artist gweledol a Sue Hunt, yr artist cain, gyfnod preswyl mis o hyd yn Art Spot Korin, Kyoto, a hwnnw'n canolbwyntio ar bapur, pecynnu a'r gelfyddyd o roi. Cynhaliodd y ddwy weithdai a manteisio ar gyfleoedd cyfnewid ym meysydd y celfyddydau, iechyd a lles, a hynny yn Osaka gyda Phrifysgol Kindai ac Ysbyty Mimihara.

### TESSA GRAY GYDAG ERAILL - CHOCI LONI YN CWRDD Â TOBIUME

Caerdydd | 25 Awst – 03 Medi
tessgray185.wixsite.com | insta: @tessgrayart

Prosiect oedd hwn a gafodd ei enw o gân Young Marble Giants, Choci Loni, a thrac Susumu Yokota, Tobiume. Yn ei sgil, cafodd meddyliau, teimladau, hunaniaethau, alawon, ymadroddion a rhythmau cyffredin Cymru a Japan gyfleigyd-blethu. Buchwech artist (tri o Japan) yn creu cerddoriaeth arbrofol, symudiadau, teithiau gweledol ac ychydig o gerddoriaeth ymlaciol. Ymunodd Reina Kimura (dawnswraig/coreograffydd), Ichi (cerddor/artist perfformio) a Reiko Aoyagi (artist amlgyfrwng gweledol) â thri artist o Gymru: Anushiye Yarnell (dawnswraig/artist perfformio/artist gweledol) Ya Yonder (cerddor/artist perfformio) a Tess Gray (artist gweledol/artist perfformio).

### GŴYL SERAMEG RYNGWLADOL ABERYSTWYTH

Gydag Euan Craig ac Iku Nishikawa
Aberystwyth • 27-29 Mehefin 2025
internationalceramicsfestival.org | insta: @icfaberystwyth fb: @ICFAberystwyth

Yng Ngŵyl Serameg Ryngwladol 2025 yn Aberystwyth, dangoswyd gwaith dau o artistiaid serameg mwyaf blaenllaw Japan, Euan Craig ac Iku Nishikawa – artistiaid y mae eu gwaith yn canolbwyntio ar gynaliadwyedd. Mae Craig, sy'n ddisgybl i 'Drysor Byw Cenedlaethol' yn Japan, yn arddangos technegau crochenwaith traddodiadol ac yn adeiladu odyn sy'n parchu'r amgylchedd. Mae Nishikawa yn arwain gweithdai kintsugi cyfoes. Kintsugi yw'r grefft Japaneaidd o atgyweirio serameg ag aur.

wales arts international
celfyddydau rhyngwladol cymru
Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
BRITISH COUNCIL
ウェールズ & 日本
Cymru a Japan
Wales and Japan

**Arts Council of Wales:** @celfcymruarts | www.arts.wales

**WAI:** @waicymruwales | www.wai.org.uk

**British Council:** @britishcouncilwales | @jpbritish
www.wales.britishcouncil.org | www.britishcouncil.org.jp

**Welsh Government:** @walesdotcom | @walesjapan | www.wales.com

Wales Japan Eki Stamp created by
Jonathan Edwards, commissioned for
Welsh Government's Year of Wales and Japan 2025
Jonathan-e.com | @jontofski

wales arts international
celfyddydau rhyngwladol cymru
Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
BRITISH COUNCIL
ウェールズ & 日本
Cymru a Japan
Wales and Japan

